

Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ionawr '18



Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw

Gwaith yn Cychwyn ar y Safle

Pleser gan Wasanaerthau Addysg yw cyhoeddi bod y gwaith dymchwel i greu'r ysgol ardal Caerhun a Threfriw newydd wedi cychwyn cyn y Nadolig. Cychwynnodd K&C Construction ddymchwel hen Ysgol Dolgarrog trwy dynnu teils y to â llaw a symud yr ystlumod oedd ar y safle, i dŷ ystlumod pwrpasol newydd — gwnaed y gwaith o dan oruchwyliaeth ecolegydd.

Adleolwyd y disgyblion a staff o Ysgol Dolgarrog a'r Ganolfan Iaith i safle dros dro nesaf at Ysgol Tal y Bont tra bo'r gwaith adeiladu ysgol i 120 o ddisgyblion yn cael ei wneud. Fel y nodwyd yn y cylchlythyr diwethaf, mae Karen Owen sy'n bresennol yn bennaeth Ysgol Tal y Bont wedi'i phenodi'n bennaeth yr ysgol newydd. Bu Karen yn gweithio'n glos gyda swyddogion prosiect yn ystod cynllunio'r ysgol newydd, a bydd yn parhau i ddarparu adborth gwerthfawr ar bob cam o'r prosiect.

Nawr mae gwaith wedi cychwyn ar y safle, mae'r corff llywodraethol dros dro, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ddolgarrog, Tal y Bont a Threfriw, yn cyfarfod yn fwy aml gydag eitemau pwysig ar yr agenda i'w trafod dros y misoedd nesaf.

